Driver and Vehicle Licensing Agency
Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Cais am ddisg dreth ddyblyg

1

V20W

Darllenwch y nodiadau dros y ddalen cyn llenwi'r ffurflen hon.
Ysgrifennwch yn glir mewn **inc du** gan ddefnyddio **PRIFLYTHRENNAU.** Peidiwch â defnyddio stamp cyfeiriad. At ddefnydd swyddogol yn unig y mae'r rhannau llwyd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.direct.gov.uk/vehicletax**

1 Manylion y cerbyd

Rhif Cofrestru'r Cerbyd: 2 3

Gwneuthuriad: Model:

2 Eich manylion (gweler nodyn A dros y ddalen)

Teitl: Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall (Dr, er enghraifft)

Enwau cyntaf:

Cyfenw:

Cyfeiriad presennol

Rhif y Tŷ.

Tref bost:

Côd post:

Os oes modd, rhowch rif ffôn yn ystod y dydd lle gallwn gysylltu â chi os bydd problem gyda'ch cais.

3 Manylion y ddisg dreth

Y dyddiad y daw'r ddisg dreth i ben: D D M M B B B B

Dosbarth treth:

Dangosir y dosbarth treth ar eich disg dreth ac ar eich Tystysgrif Cofrestru (V5CW).

Official use only

Tax period | CO_2 emissions | cc

Revenue weight | Trailer weight

Tax band | Wheelplan | Number of seats including drivers

5 (Fee)

Tax disc serial no. 6

DVLA local office stamp

£ _____ Tax paid

Temporary tax disc serial no.

4 Pam rydych chi'n gwneud cais? (gweler nodyn A ac C dros y ddalen)

(Rhowch 'X' yn un o'r blychau isod.)

Rwyf am wneud cais am ddisg dreth ddyblyg oherwydd bod y ddisg dreth wreiddiol:

- wedi mynd ar goll; ☐

(Esboniwch yn y blwch isod sut y collwyd y ddisg dreth wreiddiol.)

- wedi dinistrio; ☐
- wedi'i dwyn; ☐
- wedi'i dwyn gyda'r cerbyd, mae'r cerbyd wedi dod i'r golwg ond mae'r ddisg dreth yn dal ar goll; ☐
- does dim modd ei darllen neu mae'r lliw wedi pylu; ☐
- wedi'i difrodi. ☐

neu,

Rwyf am wneud cais am ddisg dreth ddyblyg oherwydd:

- bod y DVLA wedi gwrthod fy nghais am ad-daliad ☐

(rhaid ichi gynnwys eich llythyr gwrthod gyda'r cais hwn)

5 Datganiad

Rwy'n datgan mai fi yw ceidwad cofrestredig y cerbyd yn adran 1 neu fy mod ar fin dod yn geidwad y cerbyd hwnnw a bod y wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi'n wir.

Rwy'n deall wrth wneud cais am ddisg dreth ddyblyg na fydd yr un wreiddiol yn ddilys ac na cheir ei defnyddio.

Rwy'n cytuno os dof o hyd i'r ddisg dreth wreiddiol neu os caf hi yn ôl y byddaf yn ei dychwelyd i swyddfa leol y DVLA a roddodd y copi dyblyg imi.

Llofnod:

Dyddiad: D D M M B B B B

Yn awr, ewch â'r cais hwn i'ch swyddfa DVLA leol agosaf neu postiwch ef yno. Darllenwch y nodiadau dros y ddalen cyn cyflwyno'ch cais er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys popeth y mae angen ichi ei gynnwys.

Peidiwch ag anfon y cais i'r DVLA yn Abertawe.

V20W-1008

A Pwy gaiff wneud cais?

Gallwch gael disg dreth ddyblyg:

- os mai chi yw ceidwad cofrestredig y cerbyd a bod gennych Dystysgrif Cofrestru (V5CW) yn eich enw chi; neu
- os ydych wedi prynu'r cerbyd yn ddiweddar a bod disg dreth gyfredol arno a bod gennych adran manylion y ceidwad Newydd (V5CW/2).

B Sut ac ymhle mae gwneud cais

Os mai chi yw'r ceidwad cofrestredig, dylech lenwi'r ffurflen hon a mynd â hi neu ei hanfon gyda'ch V5CW a'r £7 o ffi (os yw hynny'n berthnasol, gweler nodyn C) i'ch swyddfa DVLA leol. **Peidiwch ag anfon y cais i'r DVLA yn Abertawe.** Os nad oes gennych V5CW bydd angen i chi fynd â 'Cais am dystysgrif cofrestru cerbyd' (V62W) neu ei bostio ynghyd â thalu'r ffi briodol.

Os ydych wedi prynu'r cerbyd yn ddiweddar ac nad oes gennych V5CW, bydd angen i chi fynd â'r canlynol i'r swyddfa, neu eu hanfon:

- eich V5CW/2; a
- V62W wedi'i llenwi (does dim angen ichi dalu'r ffi y gofynnir amdani ar y ffurflen V62W).

Mae cyfeiriad eich swyddfa DVLA leol agosaf:

- ar y wefan yn **www.direct.gov.uk/dvlalocal**; neu
- gallwch ffonio 0870 243 0444 (gofynnir ichi roi eich côd post).

Mae swyddfeydd lleol y DVLA ar agor rhwng 9yb a 5yp o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 9.30yb a 5yp ar yr ail ddydd Mercher ym mhob mis.

C Faint fydd hyn yn ei gostio?

Y ffi ar gyfer disg dreth ddyblyg yw £7, ac fel rheol, ni fydd modd ad-dalu'r ffi hon ar ôl i'r cais gyrraedd swyddfa leol y DVLA.

NI chodir ffi am ddisg dreth ddyblyg:

- os yw'r cerbyd a drethir mewn dosbarth treth a eithrir (er enghraifft, cerbydau hanesyddol neu gerbydau gyrwyr anabl);
- os yw'r ddisg dreth wedi mynd ar goll yn y post pan anfonwyd hi atoch gan y DVLA neu gan gangen Swyddfa'r Post®;
- os yw'r ddisg dreth wedi'i difrodi neu os nad oedd modd darllen y manylion pan gawsoch chi hi gan y DVLA neu gan Swyddfa'r Post® (yn y naill achos neu'r llall, rhaid ichi ei dychwelyd gyda'r ffurflen gais hon);
- os yw'r ddisg dreth wreiddiol yn cael ei chadw gan yr heddlu fel tystiolaeth;
- os oedd cerbyd wedi'i ddwyn ac wedi dod i'r fei ond bod y ddisg dreth ar goll; neu
- os yw'r DVLA wedi gwrthod eich cais am ad-daliad ar y dreth cerbyd pan anfonwyd hwnnw gyda'r ddisg dreth. Rhaid cynnwys y llythyr gwrthod gyda'r cais hwn.

Ch Sut mae dalu

Gallwch dalu'r ffi fel a ganlyn.

Yn un o swyddfeydd lleol y DVLA

- Gallwch ddefnyddio cerdyn debyd, arian parod, siec neu archeb bost, yn daladwy i DVLA Abertawe.

Drwy'r Post

- Gallwch ddefnyddio siec neu archeb bost, yn daladwy i DVLA Abertawe.

Peidiwch ag anfon arian parod, manylion cerdyn debyd, siec wag nac archeb bost wag drwy'r post.

D Pa bryd y bydd eich disg dreth ddyblyg yn eich cyrraedd?

Os yw ein cofnodion yn dangos mai chi yw'r ceidwad cofrestredig a bod y cerbyd wedi'i drethu, bydd swyddfa leol y DVLA yn anfon disg dreth ddyblyg atoch ar unwaith.

Fel arall, byddwn yn cadw'ch cais nes inni ddiweddaru'n cofnod cerbydau. Efallai y byddwn yn anfon disg dreth ddyblyg dros dro a fydd yn ddilys am hyd at wyth wythnos. Ar ôl i'n cofnodion gael eu diweddaru, anfonir disg dreth ddyblyg lawn.

Dd Diogelu data – rhyddhau gwybodaeth

Byddwn yn cadw'ch manylion ar ein cofrestr cerbydau. Cawn ryddhau'r manylion hyn os oes rhaid inni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â sut a pha bryd y cawn ryddhau'ch manylion drwy fynd i'r wefan yn **www.direct.gov.uk/dvladataprotection**

E Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am drethu cerbyd ar gael ar y wefan yn **www.direct.gov.uk/vehicletax**

Gallwch hefyd gysylltu ag adran Ymholiadau Cwsmeriaid y DVLA:

Ffôn: 0870 240 0010
E-bost: vehicles.dvla@gtnet.gov.uk
Ffacs: 0870 850 1285

Mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 8yb ac 8.30yh o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 8yb a 5.30yp ar ddydd Sadwrn. Bydd rhai galwadau'n cael eu monitro er mwyn sicrhau eu hansawdd ac at ddibenion hyfforddi. Os ydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw a bod gennych ffôn testun, ffoniwch 01792 766426. (Nid yw'r rhif hwn yn ymateb i ffonau cyffredin.)

Os nad ydych yn fodlon ar y gwasanaeth a gewch gennym, darllenwch y daflen 'Canllaw i wasanaethau cwsmeriaid a beth i'w wneud os bydd pethau'n mynd o chwith' (INS101W). Mae hon ar gael yn **www.direct.gov.uk/motoringleaflets**

RHAGORIAETH MEWN GWASANAETHAU CWSMERIAID

BUDDSODDWR MEWN POBL

10/08

Asiantaeth weithredol o'r Adran Drafnidiaeth